# MANIFFESTO AR GYFER GWAITH AMGUEDDFEYDD O RAN ADDYSG AC YMGYSYLLTU



Museums Association

Dros 20 mlynedd yn ôl cyhoeddwyd adroddiad David Anderson, A Common Wealth: Museums in the Learning Age. Seiliwyd yr adroddiad ar waith ymchwil helaeth a galwai am roi lle canolog i addysg wrth ddatblygu amgueddfeydd.

Mae'r byd rydym yn byw ynddo erbyn hyn yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd pan gyhoeddwyd yr adroddiad. Mae technolegau digidol yn rhan hanfodol o bob agwedd ar ein bywyd a'n gwaith. Mae gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu llywodraethau eu hunain ac mae diwylliant yn gyfrifoldeb datganoledig. Yn awr, yn 2020, mae pandemig y coronafeirws wedi gwneud anghydraddoldebau ein hoes yn boenus o amlwg, mewn ffyrdd na ellir bellach eu hosgoi na'u cuddio. Mae wedi effeithio'n arbennig o ddrwg ar bobl o dras Affricanaidd, pobl o Dde, Dwyrain a De-ddwyrain Asia a phobl o gefndiroedd ethnig amgen, rhai sy'n byw mewn tai gorlawn neu sydd heb gartref parhaol, a'r rhai sy'n byw mewn tlodi ac yn dioddef y niwed a ddaw yn sgil tlodi. Mae wedi lledu'r bwlch mewn cyfleoedd addysgol i holl ddysgwyr ein cymdeithas, o bob oed.

Mae llofruddiaeth George Floyd a mudiad Black Lives Matter wedi dinoethi'r hiliaeth sy'n dal i effeithio ar gymdeithas ac ar ein hamgueddfeydd. Nid yw partneriaethau, casgliadau, rhaglenni nac arddangosfeydd amgueddfeydd yn cynrychioli amrywiaeth ein cymdeithas. Mae llai na 3% o weithlu amgueddfeydd a llyfrgelloedd yn bobl o dras Affricanaidd, yn rhai o Dde, Dwyrain neu Dde-ddwyrain Asia neu'n rhai o gefndiroedd ethnig amgen – ac mae bron bob un ohonynt yn y swyddi â'r cyflogau isaf.

Mae cysylltiad agos iawn rhwng tarddiad a lledaeniad y coronafeirws â'r ffordd y mae pobl yn trin ei gilydd ac yn trin yr amgylchedd. Mae'r argyfwng hinsawdd yn fygythiad difrifol i ddyfodol y blaned ac mae'n rhaid i amgueddfeydd chwarae eu rhan yn diogelu'r adnoddau gwerthfawr sydd gennym ar ôl.

Mae'r argyfyngau hyn yn gydgysylltiedig. Felly mae'n hollol angenrheidiol i ni drawsnewid rôl amgueddfeydd mewn cymdeithas. Dyma gyfnod sy'n galw am arloesi cymdeithasol sylfaenol. Hyd yn awr, rhan fach a fu gan y celfyddydau a diwylliant ym mhrosesau adnewyddu dinesig a newid cymdeithasol ond dylem ymrwymo i'w gwneud yn ganolog i waith ailadeiladu ein cymdeithasau.

Seiliwyd y Maniffesto hwn ar ddwy flynedd o waith ymchwil, ymgysylltu ac ymgynghori â phobl sy'n gweithio mewn amgueddfeydd a gydag amgueddfeydd. Mae'n cynnig fframwaith fel y gall pob amgueddfa, beth bynnag ei hanes, ei maint, y dull o'i hariannu neu ei model llywodraethiant, fyfyrio ar ei diben a datblygu ei gwaith.

# 01
## HAWLIAU DIWYLLIANNOL A DEMOCRATIAETH DDIWYLLIANNOL

Mae'r hawl i gael mynediad at ddiwylliant ac i gymryd rhan ynddo yn hawl dynol sylfaenol. Mae gan bawb yr hawl i gael eu cynrychioli mewn amgueddfeydd ac i ddylanwadu arnynt a dylai cymunedau gael y grym i benderfynu sut y maent yn ymwneud ag amgueddfeydd.

Yn ôl Datganiad y Cenhedloedd Unedig o Hawliau Dynol, "Y mae gan bawb yr hawl i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol eu cymdeithas". Seilir hyn ar yr egwyddor bod dinasyddion yn gwneud mwy na manteisio ar gyfalaf diwylliannol a gaiff ei greu gan eraill; mae gennym y gallu a'r hawl i gyfrannu trwy ddiwylliant at les ehangach cymdeithas. Swyddogaeth fwyaf arwyddocaol amgueddfeydd yw bod yn ganolfannau democratiaeth ddiwylliannol, lle mae plant ac oedolion yn dysgu trwy brofiad ymarferol bod gan bawb ohonom hawliau diwylliannol. Efallai bod y cyfle i greu, ac i roi i eraill, yn un o'r pethau sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i ni. Mae diwylliant ym mhobman a chaiff ei greu gan bawb.

# 02
## CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

Mae ar amgueddfeydd gyfrifoldeb i gydweithio â'u cymunedau i oresgyn heriau tlodi ac allgáu, er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran canlyniadau.

Seilir cyfiawnder cymdeithasol mewn amgueddfeydd ar yr egwyddor bod gan bawb yr un hawl i gael mynediad at yr arlwy ac i gyfranogi ynddo. Mae'n golygu y gall pawb o'r cyhoedd gael budd o gasgliadau ac adnoddau amgueddfeydd, a chael cyfle cyfartal i gyfranogi ac i gyfrannu. Mae cyfiawnder cymdeithasol yn golygu bod amgueddfeydd yn cydweithio â'u cymunedau i wella iechyd a lles, i greu lleoedd gwell i fyw ac i weithio ynddynt ac i gynnig cyfleoedd i drafod a myfyrio. Gall gwirfoddoli a chyfranogiad ystyrlon hybu hunanhyder pobl a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt mewn bywyd, yn cynnwys goresgyn ynysigrwydd cymdeithasol a chynnig cyfleoedd i feithrin sgiliau a dod yn fwy cyflogadwy.

# 03
## YMGYRCHU

Nid yw amgueddfeydd yn niwtral. Dylai gwaith ymgyrchu amgueddfeydd fod yn seiliedig ar wrando ar ein cymunedau, a gweithredu a chyflawni gyda nhw.

Nod amgueddfeydd wrth ymgyrchu yw gweithredu mewn ffordd gadarnhaol i wneud y byd yn lle gwell. Mae amgueddfeydd yn rhan o wead cymdeithas. Caiff digwyddiadau y tu allan i'w muriau effaith arnynt hwy a gallant hwythau gael effaith ar ddigwyddiadau allanol. Gall amgueddfeydd gefnogi ymgyrchoedd sy'n bwysig i'n cymunedau mewn ffordd agored a chydweithredol. Gallai hyn olygu bod amgueddfeydd, trwy eu casgliadau, eu gwaith dehongli a'u rhaglennu, yn cyfrannu dealltwriaeth, gwybodaeth a safbwyntiau ar faterion fel gwrth-hiliaeth ac argyfwng yr hinsawdd.

# 04
## CYFRANOGIAD CYMUNEDOL

Dylai amgueddfeydd ddatblygu modelau ymgysylltu dyfeisgar sy'n cynrychioli cyd-destun diwylliannol eu cymunedau a'u cenhedloedd ac sy'n rhai dewr a heriol. Dylid gwerthfawrogi grwpiau cymunedol a dylent gael ymwneud yn llawn â holl swyddogaethau'r amgueddfa.

Mae cymunedau yn gymhleth, yn aml-haenol ac yn hylifol ac nid mewn ffordd oddefol, ddigyfnewid y maent yn cyfranogi yng ngwaith amgueddfeydd. Dylai cyfranogiad herio sefydliadau, staff, y cymunedau rydym yn cydweithio â nhw a'n hymwelwyr. Gall yr her ymwneud yn gymaint â'r hyn y mae grŵp ysgol yn ei ddisgwyl o weithdy, ag â barn grŵp o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol am y bwyd a'r diod a gynigir ar y safle. Mae ansicrwydd taith cyfranogiad cymunedol yn arwydd bod y bwriad yn iawn. Nid oes dyddiad cau ar gyfranogiad cymunedol ac mae mwy i'w wneud bob amser.

# 05

## Y CASGLIADAU

**Mae casgliadau'n perthyn i gymunedau a, heb bobl, dim ond storfeydd yw amgueddfeydd. Pethau i'r cyhoedd eu defnyddio yw casgliadau.**

Mae casgliadau'n bwysig i lawer o bobl ac, er mwyn iddynt hybu dealltwriaeth pobl a'u grymuso, mae angen i bobl gael mynediad atynt. Dylai amgueddfeydd gydweithio â'u cymunedau i sicrhau bod casgliadau yn berthnasol, yn ddeinamig ac yn grymuso pobl. Mae hyn yn golygu mynd ati i ddemocrateiddio a dad-drefedigaethu casgliadau; ailddehongli casgliadau gyda chymunedau; a chefnogi partneriaethau a rhannu gwybodaeth. Dylai amgueddfeydd fod yn dryloyw am y gwrthrychau sydd ganddynt a chydweithio â chymunedau i ddeall, dehongli a rhesymoli casgliadau.

# 06

## YMCHWIL A GWERTHUSO

**Dylai amgueddfeydd gefnogi gwaith ymchwil pobl-ganolog sy'n ymateb i heriau cymdeithas gan arwain at newidiadau er gwell.**

Mae amgueddfeydd yn ffordd o feddwl, ac mae'r ffyrdd hynny'n newid dros amser. Mae gwaith ymchwil – sy'n fwriadus, yn canolbwyntio ar y cyhoedd ac yn ateb anghenion yr oes – yn hanfodol er mwyn i amgueddfeydd fod yn effeithiol fel canolfannau cyfiawnder cymdeithasol a thrawsnewidiad. Nid dim ond arbenigwyr, a'r rheiny'n canolbwyntio ar gasgliadau amgueddfeydd, sy'n gwneud ymchwil amgueddfaol. Gall ymchwilwyr ymgyrchol ddefnyddio adnoddau diwylliannol yn eu hardaloedd eu hunain i greu ac arwain gwybodaeth newydd a ddatblygir gyda chefnogaeth amgueddfeydd. Gall cymunedau ddefnyddio'r gwaith ymchwil a'r ddealltwriaeth newydd i sicrhau newid mewn cymdeithas.

# 07

## PARTNERIAETHAU

**Dylai partneriaethau ddwyn cymunedau ynghyd a dylid eu seilio ar egwyddor tegwch. Dylai amgueddfeydd gydweithio â gwahanol fathau o bartneriaid a meddwl y tu hwnt i bartneriaid a chynulleidfaoedd traddodiadol.**

Gall partneriaethau rhwng amgueddfeydd a chymunedau, a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli, ddod â golwg ffres a dealltwriaeth newydd i bob rhan o waith amgueddfeydd. Bydd partneriaethau cydradd â chymunedau yn ein galluogi i ymwneud â syniadau, rhwydweithiau a phobl newydd. Gall partneriaethau cryf helpu amgueddfeydd i ddeall y problemau sy'n wynebu eu cymunedau, hybu cynlluniau i gydweithio â chymunedau, a'u cyflwyno i rwydweithiau newydd o bobl a all ddatblygu'n gynulleidfaoedd, yn wirfoddolwyr ac yn staff newydd.

# 08

## Y GWEITHLU

**Mae ar amgueddfeydd angen gweithlu sy'n cynrychioli eu cymunedau, sy'n cael eu parchu, yn cael buddion cyfartal ac sy'n gwireddu ac yn cefnogi uchelgeisiau'r maniffesto hwn.**

Pan fydd pobl o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol yn dod i mewn i sefydliadau, ychydig sy'n codi i swyddi uchel ac, os gwnant, byrhoedlog yw hynny yn aml oherwydd problemau systemig a diffyg cefnogaeth. Rhaid i amgueddfeydd weithredu trefniadau recriwtio teg, creu llwybrau datblygu a chamu ymlaen ar gyfer staff presennol o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol, a sicrhau lleoedd diogel a chefnogaeth i'r staff hyn wrth gychwyn yn y proffesiwn ac wrth gyrraedd swyddi arweinwyr. Mae gweithlu sy'n gynrychioliadol, yn greadigol ac yn cael ei gefnogi yn sylfaen hanfodol ar gyfer y maniffesto hwn ac mae'n hollbwysig er mwyn cyrraedd ei nodau.

Engage
Bringing people and art together

Gem
the voice for heritage learning

Art Fund_

## Adnoddau eraill:

https://www.museumsassociation.org/campaigns/museums-change-lives/

https://www.museumsassociation.org/campaigns/ethics/

https://www.museumsassociation.org/campaigns/collections/empowering-collections/

https://www.museumsassociation.org/campaigns/museums-change-lives/power-to-the-people/

https://gem.org.uk/resource/

https://engage.org/resources/

https://www.culturehealthandwellbeing.org.uk/resources

https://www.ofbyforall.org/

https://www.runnymedetrust.org/uploads/publications/We%20Are%20Ghosts.pdf

https://www.creativepeopleplaces.org.uk/our-learning/power

https://www.phf.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/Asset-based-work-with-young-people-Findings-from-the-Youth-Fund-evaluation.pdf

https://www.dur.ac.uk/creativitycommission/report/recommendations/

# ASTUDIAETHAU ACHOS

# HAWLIAU DIWYLLIANNOL A DEMOCRATIAETH DDIWYLLIANNOL

Mae'r hawl i gael mynediad at ddiwylliant ac i gymryd rhan ynddo yn hawl dynol sylfaenol. Mae gan bawb yr hawl i gael eu cynrychioli mewn amgueddfeydd ac i ddylanwadu arnynt a dylai cymunedau gael y grym i benderfynu sut y maent yn ymwneud ag amgueddfeydd.

01

# 01
# Amgueddfa Cymru

Yn ôl y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (Erthygl 27), mae gan bawb yr hawl i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol eu cymdeithas ac i fwynhau'r celfyddydau. Nid yw'r ffaith fod diwylliant a'r celfyddydau ar gael am ddim i bobl o bob cefndir yn ddigon, ar ei phen ei hun, i ddileu rhwystrau ac anghydraddoldeb. Rydym ni yn Amgueddfa Cymru yn edrych ar ein gwaith o safbwynt hawliau, gan herio anghydraddoldeb a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar dri maes strategol: cyfranogiad; cynrychiolaeth; a dylanwadu/gwneud penderfyniadau.

Un enghraifft bwysig o'r gwaith hwn yw'r arddangosfa Penderfyniad Pwy? Creu Cysylltiadau â Chelf Gyfoes – arddangosfa fawr yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Crëwyd yr arddangosfa gyda chleientiaid o'r Wallich – elusen sy'n cefnogi oedolion digartref yng Nghymru. Dros gyfnod o naw mis, bu grŵp o ddeg curadur o'r Wallich yn cydweithio â staff o wahanol rannau o'r amgueddfa. Trwy gyfrwng cyfres o weithdai, cafodd y grŵp eu grymuso i arwain ar bob elfen o Penderfyniad Pwy?, yn cynnwys dewis a dehongli'r gwrthrychau, marchnata'r arddangosfa a darparu rhaglenni ar gyfer y cyhoedd.

Nod y prosiect oedd bod yn bartneriaeth onest, agored a chyfartal, gan herio gwerthoedd a strwythurau sefydledig. Doedd llawer o guraduron y Wallich erioed wedi bod mewn amgueddfa o'r blaen a daethant â gwybodaeth a sgiliau newydd i'r gwaith trwy eu profiad o fywyd. Llwyddodd y curaduron i newid ein ffordd ni o weld a deall celf gyfoes. Er enghraifft, roeddent yn herio dulliau dehongli traddodiadol trwy ysgrifennu labeli'n disgrifio'u cysylltiadau personol â'r darnau celf. Gyda'n gilydd, llwyddwyd i ddarparu arddangosfa hygyrch, groesawgar a grymus a gafodd dros 40,000 o ymwelwyr.

Ar ôl yr arddangosfa, bu curaduron y Wallich yn gwirfoddoli mewn rolau ehangach yn yr amgueddfa. Roedd eu cyfraniad nhw yn dangos bod modd i amgueddfeydd fod yn llecynnau dinesig bywiog yn ein cymunedau mewn ffyrdd newydd. Rydym yn symud i gyfeiriad model o amgueddfa sy'n gweithredu y tu hwnt i'w waliau ei hunan. Mae'r agwedd hon yn rhoi cyfiawnder cymdeithasol wrth galon y gwaith, gan gyd-gynhyrchu profiadau perthnasol a diddorol gyda chymunedau ledled Cymru.




**Grace Todd**
Cydlynydd Strategaeth ac Uwch Swyddog Addysg, Cyfranogiad a Dehongli
Amgueddfa Cymru

# CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

Mae ar amgueddfeydd gyfrifoldeb i gydweithio â'u cymunedau i oresgyn heriau tlodi ac allgáu, er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran canlyniadau.

02

# 02 Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl

Ar ôl i George Floyd gael ei ladd, cyhoeddodd Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl (NML) ddatganiad yn condemnio ei lofruddiaeth hiliol ac yn galw am newid. Yn ogystal â'r geiriau, ffurfiodd NML grŵp llywio o gydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad er mwyn sicrhau bod gweithgarwch Black Lives Matter yn rhan hanfodol o bopeth a wnawn. Wrth i'n hamgueddfeydd a'n horielau ailagor, dangoswyd datganiad gweladwy am safiad y sefydliad ar Black Lives Matter ar bob safle. Trefnwyd cyfeiriad ebost neilltuol ar gyfer Black Lives Matter, gan annog ymwelwyr i gysylltu os oedd angen i NML newid eu gwaith dehongli, eu casgliadau neu eu hiaith. Crëwyd tudalen o adnoddau Black Lives Matter ar wefan NML, gan roi sylw i brofiadau pobl dduon Lerpwl, rhannu llenyddiaeth a phodlediadau perthnasol, a chynnig gwybodaeth ar sut i gefnogi'r mudiad yn lleol.

Fel rhan o'i gwaith, mae Amgueddfa Ryngwladol Caethwasiaeth yn dal wrthi'n ymgyrchu ac yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, ymgysylltu â'r gymuned a chynhwysiant. Ers degawdau lawer, bu NML a chymunedau a mudiadau pobl dduon yn cydweithio, yn ymgysylltu ac yn cyd-greu. Yn ddiweddar, bu cymunedau'n cymryd rhan mewn digwyddiadau a thrafodaethau ar-lein, ac ymunodd NML â phartneriaeth addysg yn y ddinas sy'n mynd i'r afael â diffyg hanes pobl dduon Prydain yn y cwricwlwm cenedlaethol. Mae oriel Diwylliannau'r Byd yn Amgueddfa'r Byd yn troi cefn ar arddangosfeydd sy'n rhannu pobl yn ddiwylliannau gwahanol, gan ffafrio arddangosfeydd sy'n mynd i'r afael â materion a syniadau byd-eang. Mae NML yn cydweithio â diwydiannau creadigol dan arweiniad pobl dduon, yn cynnwys addysgwyr, beirdd, artistiaid, gwneuthurwyr ffilmiau a digrifwyr, i newid y storïau a adroddir a sut y cânt eu rhannu. Yn ddiweddar, penodwyd Hanesydd Preswyl ac mae hyn yn gam mawr tuag at sicrhau ein bod yn ymgorffori dealltwriaeth o hanes a gwaddol caethwasiaeth yn ein holl amgueddfeydd ac orielau. Yn ogystal, rydym yn cyflwyno polisi dychwelyd i darddiad sy'n cydnabod pwysigrwydd dychwelyd gwrthrychau. Gall hyn wella ac adfer perthnasoedd ac ailennyn ymddiriedaeth cymunedau.

**Claire Benjamin**
Pennaeth Addysg a Chyfranogiad
Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl



# YMGYRCHU

Nid yw amgueddfeydd yn niwtral. Dylai gwaith ymgyrchu amgueddfeydd fod yn seiliedig ar wrando ar ein cymunedau, a gweithredu a chyflawni gyda nhw.

03

# 03
# Amgueddfa Digartrefedd

Mae COVID-19 yn risg enfawr i'r bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw o ddydd i ddydd – rhai'n ddigartref a rhai mewn sefyllfa fregus o ran eu cartref. Ym mis Mawrth, wrth i amgueddfeydd gau eu drysau a strydoedd Llundain wagio, cafodd llu o ganolfannau dydd, banciau bwyd, rhoddion i bobl ddigartref a gwasanaethau digartrefedd eraill eu canslo. Gan nad oedd yr awdurdodau'n ymateb, fe wnaethom ni weithredu i achub bywydau.

Ad-drefnwyd ein holl adnoddau i ymgyrchu ac i gynnig cymorth uniongyrchol i'n cymuned. Cyhoeddwyd cynllun gennym ni, cyn i'r llywodraeth wneud hynny, i ddefnyddio gwestai gwag ar gyfer pobl ddigartref. Cafodd ei fabwysiadu'n strategaeth genedlaethol wedyn. Ar ôl i ni ei lobïo, aeth yr Ysgrifennydd Gwladol ati i ailagor Ysbyty Mildmay, oedd wedi cau, er mwyn cynnig gofal arbenigol COVID i bobl ddigartref.

Buom yn cydweithio â thimau iechyd pobl ddigartref, menter Rough Sleepers y llywodraeth, partneriaid lleol a grwpiau llawr gwlad ledled y Deyrnas Unedig. Ffurfiwyd Tasglu Digartrefedd COVID-19 gennym, ar y cyd â Streets Kitchen, yr Outside Project, Simon Community, Union Chapel, Greenpeace, grwpiau cydgymorth a llawer mwy. Gan fod ein gweithgarwch diwylliannol ar stop am y tro, fe gawsom fenthyg canolfan gymuned wag gan y cyngor i lansio cynllun 7-diwrnod-yr-wythnos,. Fe wnaethom ni hyd yn oed ddefnyddio silffoedd o'r amgueddfa i ddal bwyd sych a thuniau.

Digwyddodd hyn i gyd o fewn tair wythnos fer a, thrwy gydol yr haf, bu dros 50 o wirfoddolwyr yn helpu i baratoi bron 9,000 o brydau bwyd ar gyfer pobl mewn llety dros dro ac ar y strydoedd. Fe wnaethom ni barhau i lobïo a thrafod gyda'r sector hawliau mudwyr gan ymgyrchu (yn aflwyddiannus) i'r llywodraeth ddiddymu'r rheolau 'dim hawl i arian cyhoeddus'. Cyflwynwyd tystiolaeth gennym hefyd i bwyllgorau dethol a buom yn cydweithio â Liberty i herio'r Mesur Coronafeirws.

Ers hynny, mae'r cyngor wedi gofyn am y ganolfan gymuned yn ôl. Ond, gyda'r pandemig yn parhau a'r ail don ar y gorwel, rydym yn parhau i weithredu. Hyd nes i ni gael ein hadeilad ein hunain, fe welwch chi ni ar y strydoedd bob dydd Iau, ar gornel Highbury, rhwng 12 a 2.

**Jess a Matt Turtle**
Cydsefydlwyr
Amgueddfa Digartrefedd



# CYFRANOGIAD CYMUNEDOL

Dylai amgueddfeydd ddatblygu modelau ymgysylltu dyfeisgar sy'n cynrychioli cyd-destun diwylliannol eu cymunedau a'u cenhedloedd ac sy'n rhai dewr a heriol. Dylid gwerthfawrogi grwpiau cymunedol a dylent gael ymwneud yn llawn â holl swyddogaethau'r amgueddfa.

04

# 04
# Jon Sleigh

Ydi ymarferwyr mor ddewr â'r casgliadau yr ydym yn eu cynrychioli? Mae cydnabod terfynau ein profiad ni o fywyd a man cychwyn profiad pobl eraill yn rhan hanfodol o gyfranogiad cymunedol.

Yn 2018, cefais y fraint o weithio ar brosiect a newidiodd fy mywyd gyda'r Birmingham Museums Trust, yr Arts Council Collection a'r Precious Trust sy'n gweithio gyda menywod ifanc y mae perygl iddynt ddioddef trais neu gael eu hecsbloetio. Roedd un rhwystr mawr i ymgysylltu – roedd un eitem yn yr arddangosfa 'Women Power Protest' wedi'i wneud o ddryll go iawn, yn sôn am drais yn erbyn menywod. Sut allwn i anrhydeddu'r naratif ag integriti a'i ddefnyddio at ddiben ystyrlon?

Fe ateb oedd mynd ati i gydweithio â'r Precious Trust. Bob dydd, mae'r tîm yn clywed o lygad y ffynnon am ferched a menywod ifanc yn cael eu hecsbloetio at ddibenion troseddol ac yn cael eu gorfodi i buteinio. Mae'r cam-drin hwn yn aml yn aros ynghudd gan fod y merched yn dioddef yn dawel. Cenhadaeth y Precious Trust yw brwydro drostynt a galluogi'r menywod ifanc i fod yn ddiogel, i ailadeiladu eu bywydau ac i fwynhau dyfodol gwell.

Defnyddiodd sefydlydd yr Ymddiriedolaeth, Dr Marcia Shakespeare MBE, y gwaith celf am drais fel dyfais ymarferol i ddadlau dros newid. Yn yr oriel, fe hawliodd rhai o drigolion mwyaf agored i niwed Birmingham le i rannu mewn ffordd rymus ac emosiynol. Bu i'r merched ailddehongli'r arddangosfa yn eu llais nhw, gan gysylltu profiadau heriol mewn bywyd â'r ymwelwyr.

Ar ôl hynny, ymunodd y Precious Trust â mi yn y Senedd i gyfarfod â Jess Philips AS ac adrodd eu stori. Defnyddiodd Jess eu tystiolaeth yn ei gwaith o ddadlau dros ddiogelwch menywod trwy'r wlad. Cawsom ein tywys o gwmpas y Senedd cyn gadael.

Gan ddechrau â phrinder profiad o fywyd, fe ddefnyddion ni gyfranogiad cymunedol fel dyfais i sicrhau newid, gan chwyddo hyn i ddylanwadu ar wleidyddiaeth genedlaethol. Man cychwyn y cyfan oedd bwriad da, parodrwydd i wynebu her, dewrder a phaned o de.

**Jon Sleigh**
Addysgwr y Celfyddydau, Swyddog Addysg a Churadur Addys



# Y CASGLIADAU

## Mae casgliadau'n perthyn i gymunedau a, heb bobl, dim ond storfeydd yw amgueddfeydd. Pethau i'r cyhoedd eu defnyddio yw casgliadau.

# 05

# 05
# Amgueddfa Pitt Rivers

Mae gan gasgliadau Amgueddfa Pitt Rivers gyfoeth o straeon i'w datgelu. Rydym yn credu'n angerddol y dylid adrodd y straeon hyn o wahanol safbwyntiau, yn eu holl gymhlethdod. Rydym yn mynd ati i adeiladu partneriaethau a meithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid ym mhedwar ban byd, ac â'n cymunedau lleol hefyd. Yn y gorffennol, mae hyn wedi denu pob math o wahanol bobl i'r Amgueddfa i ddefnyddio a gweithredu'r casgliadau mewn ffyrdd newydd, yn cynnwys ceidwaid gwybodaeth brodorol, ymchwilwyr, myfyrwyr, ac amrywiaeth eang o gyrff cymunedol.

Er enghraifft, cychwynnwyd prosiect y Maasai Living Cultures yn 2017, pan ymwelodd Samwel Nangiria â'r Amgueddfa fel rhan o raglen Indigenous Leadership y corff anllywodraethol Insightshare. Daeth cynrychiolwyr Maasai o Kenya a Tanzania draw dair gwaith, dros dair blynedd. Yn ystod yr ymweliadau hynny, mynegodd yr ymwelwyr bryderon am bresenoldeb 5 o'r 188 o wrthrychau a dweud bod angen ymyrraeth ysbrydol i sicrhau nad oedd eu presenoldeb yn Rhydychen yn dod ag anlwc i rai o deuluoedd y Maasai. Rydym yn disgwyl am arweiniad pellach gan Brif Laibon (arweinydd ysbrydol) y Maasai, Laibon Mokompo Ole Parit, i ganfod ffyrdd o symud ymlaen gyda chymuned y Maasai. Yn ogystal, dechreuwyd trafod sut y mae'r Amgueddfa yn sôn am y Maasai mewn arddangosfeydd, cronfeydd data a rhaglenni addysg.

Mae'r partneriaethau hyn yn cynnig creadigrwydd ac addysg, ond maent hefyd yn gymhleth ac yn heriol. Mae'n hanfodol wynebu'r cymhlethdod hwn er mwyn sicrhau ein bod yn croesawu pawb ac yn adrodd straeon onest, â gwahanol leisiau, sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Oherwydd natur ein casgliadau, mae dad-drefedigaethu yn flaenoriaeth fawr, gyda'r bwriad o rannu awdurdod curadurol a/neu ei drosglwyddo i guraduron, ceidwaid gwybodaeth ac artistiaid brodorol. Wrth raglennu, rydym yn rhoi blaenoriaeth i aelodau cymunedau dros leisiau curadurol ac, wrth ddehongli, ceisiwn gynnwys epistemolegau (ffyrdd o wybod) o'r De. Trwy gynnig ffyrdd mwy ystyrlon o ddeall, gallwn weithio tuag at ddyfodol mwy gobeithiol a fydd yn sicrhau bod yr Amgueddfa'n dal yn berthnasol i'r oesoedd a ddêl.



**Dr. Laura Van Broekhoven**
Cyfarwyddwr
Amgueddfa Pitt Rivers

# YMCHWIL A GWERTHUSO

Dylai amgueddfeydd gefnogi gwaith ymchwil pobl-ganolog sy'n ymateb i heriau cymdeithas gan arwain at newidiadau er gwell.

06

# 06 Llyfrgell Fenywod Glasgow

Llyfrgell Fenywod Glasgow (GWL) yw'r unig Amgueddfa Achrededig yn y Deyrnas Unedig sy'n bodoli i fawrygu bywydau, hanesion a llwyddiannau menywod, gyda llyfrgell fenthyg, casgliadau o archifau a rhaglenni arloesol o ddigwyddiadau cyhoeddus a chyfleoedd dysgu.

Yn 1995, daeth GWL yn geidwaid defnyddiau'r Lesbian Archive and Information Centre (LAIC) o Lundain am fod honno wedi cau oherwydd toriadau ariannol. Erbyn hyn, y casgliad hwn, sy'n cynnwys defnyddiau o'r 1920au tan heddiw, yw traean archif GWL a dyma'r unig archif o ddefnyddiau lesbaidd yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cynnwys tystiolaeth o gymunedau clòs, cynhwysol, rhyngblethedig, gyda defnyddiau amrywiol, o gofnodion cyfarfodydd grwpiau cymunedol, i gyhoeddiadau rhyngwladol, defnyddiau ymgyrchu a llawer rhagor.

Er bod GWL yn gofalu am y casgliad ers blynyddoedd, mae cyfoeth o ddefnyddiau yn dal heb eu darganfod a'u cyflwyno er mwyn grymuso cymunedau newydd o fenywod. Datblygwyd prosiect Lesbian Lives gan Gronfa Gasgliadau Esme Fairbairn mewn cydweithrediad â'r curadur annibynnol Freya Monk-McGowan er mwyn dat-gloi ei botensial trwy ddehongli a digideiddio defnyddiau. Mae'r artist arobryn Ingrid Pollard, sydd wedi cymryd rhan yn hanes LAIC, wedi'i chomisiynu i greu gwaith i'w ddangos yn Glasgow International yn 2021. Mae celfyddyd gymdeithasol Pollard yn cyfleu naratifau perthnasol am gynrychiolaeth a gwahaniaeth.

Yn ogystal â phreswyliad Pollard, bydd Lauren Kelly, archifydd dan hyfforddiant, yn canolbwyntio ar wella mynediad at y casgliad a threfnu digwyddiadau i roi profiad i bobl o ymwneud yn uniongyrchol â defnyddiau. Gyda chefnogaeth tîm profiadol GWL o staff a gwirfoddolwyr, mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar gyfiawnder cymdeithasol a thrawsnewidiad. Rhoddodd y curadur arweiniol Monk-McGowan ei bys ar y rheswm pam y mae angen y gwaith:

A minnau'n fenyw *queer*, rwy'n deall y profiad o ddod allan heb i 'mywyd i gael ei gynrychioli mewn sefydliadau treftadaeth nac yn y gymdeithas ehangach. Gwn faint o niwed y gall hyn ei wneud i ddealltwriaeth rhywun o'u lle mewn cymdeithas, eu hunan-fri ac, yn bwysig, eu hiechyd a'u lles.




**Caroline Gausden**
Gweithiwr Datblygu Rhaglennu a Churadu
Llyfrgell Fenywod Glasgow

# PARTNERIAETHAU

Dylai partneriaethau ddwyn cymunedau ynghyd a dylid eu seilio ar egwyddor tegwch. Dylai amgueddfeydd gydweithio â gwahanol fathau o bartneriaid a meddwl y tu hwnt i bartneriaid a chynulleidfaoedd traddodiadol.

07

# 07
# Partneriaeth Amgueddfeydd Cernyw

Cychwynnwyd y Rural Diversity Network yn 2017 gan Bartneriaeth Amgueddfeydd Cernyw (CMP) a'r curadur llawrydd Tehmina Goskar, fel rhan o raglen arweinyddiaeth Change Makers gyda chymorth Arts Council England.

Ffordd o geisio mynd i'r afael ag allgáu daearyddol trwy weithio mewn partneriaethau yw'r rhwydwaith. Mae daearyddiaeth wledig yn amharu ar lawer; gall ddwysáu effeithiau hil, amddifadedd economaidd-gymdeithasol, rhywedd, anabledd a mynediad at wasanaethau a chyfleoedd. Yn aml, mae polisïau diwylliannol ym maes amrywiaeth wedi canolbwyntio ar amrywiaeth weledol dinasoedd. Nod y rhwydwaith yw sicrhau cydbwysedd trwy gynnig safbwynt arall ac ymgyrchu dros degwch i ardaloedd gwledig.

Gwelwyd yn aml bod tuedd i fuddsoddiad diwylliannol mewn ardaloedd gwledig ganolbwyntio ar greu arlwy i dwristiaid, sy'n golygu ei bod yn anodd cynnwys mudiadau sy'n ymwneud â chymunedau lleol. Mae'r rhwydwaith yn helpu i herio, darparu gwybodaeth a datblygu arferion newydd.

Nodau'r rhwydwaith yw:

– Cynrychioli/eiriol wrth wneuthurwyr polisïau a rhanddeiliaid (yn cynnwys cymunedau)

– Lle i roi amrywiaeth ar waith – hyfforddiant i helpu i sicrhau amrywiaeth ymarferol mewn busnesau a rhaglenni

– Rhwydweithio, â chydweithwyr ac â sefydliadau'r naill a'r llall, i ganfod achos cyffredin

– Lle diogel i herio a chael eich herio, yn cynnwys cael trafodaethau anodd heb dramgwyddo/gael eich tramgwyddo

– Defnyddio amrywiaeth yng Nghernyw fel ffordd ymarferol o ddysgu sy'n help i eraill ddeall, yn enwedig y berthynas rhwng Lleiafrif Cenedlaethol Cernyw a mathau eraill o amrywiaeth

Mae dull gweithredu'r rhwydwaith, a seilir ar hawliau, yn dibynnu ar gydnabod gallu'r rhai sydd â'r anawsterau mwyaf i benderfynu drostynt eu hunain, gan gredu y gallant fynegi eu 'blaenoriaethau' eu hunain a sicrhau newidiadau. Mae'r rhwydwaith yn cydweithio â chyrff sy'n arbenigo yn y pwnc dan sylw i gynnig 'Takeovers' misol ar Twitter, wedi'u cydlynu gan CMP.



Maent yn gofyn cwestiynau i ddilynwyr CMP ac yn ennyn trafodaeth.

Ymhlith y pynciau a drafodwyd hyd yma mae digartrefedd, iechyd meddwl, pobl hŷn, gwirfoddoli, pobl ifanc, addysg yn y celfyddydau a chefnogaeth i bobl LGBTQ+ a'r rhan y gall amgueddfeydd ac orielau ei chwarae.

**Celine Elliott**
Arweinydd Ymgysylltu
Cornwall Museums Partnership

# Y GWEITHLU

Mae ar amgueddfeydd angen gweithlu sy'n cynrychioli eu cymunedau, sy'n cael eu parchu, yn cael buddion cyfartal ac sy'n gwireddu ac yn cefnogi uchelgeisiau'r maniffesto hwn.

08

# 08 Amgueddfeydd ac Orielau Caeredin

**Beth wnewch chi pan fydd pandemig yn cau gwasanaeth amgueddfeydd dri diwrnod cyn dechrau'ch hyfforddeiaeth?**

Dyna'r sefyllfa a wynebai'r hyfforddeion, Susie a Thessa, a oedd yn ymuno ag Amgueddfeydd ac Orielau Caeredin ynghanol argyfwng COVID-19. Mae Prosiect Treftadaeth Amgueddfeydd Cynhwysol a ariannir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, mewn partneriaeth â'r fenter gymdeithsol, Next Step Initiative, yn creu cyfleoedd i bobl o dreftadaeth ddu a lleiafrifoedd ethnig i gael mynediad i'r sector amgueddfeydd yn yr Alban. Gwyddom fod gweithlu amrywiol a chynrychioliadol yn arwain yn uniongyrchol at gynyddu cyfranogiad cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Rhaid i ninnau fel sector ymrwymo i welliant gwirioneddol a chynaliadwy yn y maes hwn.

Yn fuan iawn, llwyddodd yr hyfforddeion i feithrin perthynas â'u cydweithwyr newydd ac addasu i heriau gweithio ym maes ymgysylltu â chasgliadau, heb gasgliadau, canolfannau na phobl. Aethant ati i gofleidio cyfleoedd digidol a pharatoi podlediad yn archwilio ein perthynas â gwrthrychau yn ein cartrefi, o dan ddylanwad y cyfnod clo. Llwyddodd Susie i greu adnodd digidol yn casglu hanesion unigolion o gasgliad o ffotograffau o gymuned bysgota yng ngogledd Caeredin. Mae Thessa yn edrych ar wahanol safbwyntiau ar ddoliau o Asia yng nghasgliad yr Amgueddfa Plentyndod, gan gyfrannu at Amgueddfa'r Ymerodraeth ar-lein http://empiremuseum.scot. Mae'r ddwy yn cydweithio â gwasanaeth llyfrgelloedd y ddinas i greu arddangosfeydd ar-lein yn edrych ar ddatblygiad Caeredin yn yr 1920au, a chasgliadau cyfoes o ddefnyddiau am brotestiadau.

Mewn cyfnod pan fo mudiad Black Lives Matter yn hawlio'r agenda gyhoeddus, bu ein hyfforddeion yn herio'r gwasanaeth amgueddfeydd ynghylch rhaglennu, dehongli, dosbarthu casgliadau ac arferion recriwtio. Mae angen eu creadigrwydd, eu brwdfrydedd a'u sgiliau ar ein gwasanaeth.

Mae'n hen bryd cael mwy o amrywiaeth yn y sector amgueddfeydd a threftadaeth. Yng ngwasanaeth amgueddfeydd Caeredin, mae ein profiad gyda'r hyfforddeion wedi cadarnhau ein hymrwymiad i greu llif o gyfleoedd i bobl groenliw ymuno â'r gwasanaeth ac aros yno.



Mae gennym nod – nid dim ond denu pobl ar leoliadau tymor byr, ond datblygu staff mwy amrywiol, gan ail-lunio strwythur ein gweithlu a dod yn fwy cynrychioliadol o bobl Caeredin.

**Laura Bennison**
Rheolwr Gwaith Maes a Mynediad Amgueddfeydd ac Orielau Caeredin

Museums Association

**Museums Association**
42 Clerkenwell Close
London EC1R 0AZ
T: 020 7566 7800
www.museumsassociation.org